Diweddariad Mawrth 2019

# PRIFYSGOL BANGOR
# ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

Dylid cynnwys Asesiad Effaith Cydraddoldeb fel rhan hanfodol o'r broses o ddatblygu polisïau newydd, adolygu polisïau a gwneud penderfyniadau strategol a gweithrediadol er mwyn sicrhau y dileer unrhyw anghydraddoldeb a gwahaniaethu neu y rhoddir sylw iddynt cyn gynted â phosib.

Mae'r rhestr wirio hon yn rhan o ddull y brifysgol o ymdrin ag asesu effaith cydraddoldeb a dylid ei defnyddio i asesu effaith y polisi ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

---

## GRWPIAU CYDRADDOLDEB:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Oedran | Anabledd | Ailddynodi Rhywedd | Beichiogrwydd a mamolaeth | Yr iaith Gymraeg |
| Hil | Crefydd a chred | Rhyw | Cyfeiriadedd rhywiol | Math o gontract |
| Priodas a phartneriaeth sifil | | | | |

Sylwer - Mae'n ymarfer da ystyried materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg a math o gontract er bod y meysydd hynny dan ddeddfwriaeth wahanol i Ddeddf Cydraddoldeb 2010

## Enw neu deitl y polisi: -

Gweithdrefn 07 - Gweithdrefnau Cymeradwyo Gohirio Astudiaethau.

Diweddariad Mawrth 2019

| Gwybodaeth am y polisi: | |
|---|---|
| Beth yw diben y polisi? | Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i bob myfyriwr sy'n dymuno gohirio ei astudiaethau. |
| Pwy sy'n gyfrifol am y polisi? | Pennaeth Gweinyddu Myfyrwyr. |
| Beth yw cysylltiad y polisi â blaenoriaethau strategol y brifysgol? | Ein cenhadaeth: "profiad cynhwysol".<br><br>Ein gwerthoedd: "amgylchedd diogel, croesawgar a chynhwysol". |
| Pa grwpiau sy'n rhanddeiliaid yn y polisi? | Myfyrwyr. |
| A gaiff y polisi ei ddefnyddio'n unffurf ym mhob maes yn y brifysgol? | Caiff. |
| Nodwch y grwpiau y mae'r polisi'n berthnasol iddynt. | Myfyrwyr. |

A roddwyd ystyriaeth i'r materion canlynol? (un o ofynion Dyletswydd Cydraddow[illegible]

Diweddariad Mawrth 2019

| Monitro | |
|---|---|
| Pa ddata meintiol neu ansoddol sydd ar gael i gyfrannu at y polisi? | |

| Ymgynghori | |
|---|---|
| Pa grwpiau yr ymgynghorwyd â hwy wrth ddrafftio’r polisi? | Pwyllgor Rheoliadau'r Senedd ac Achosion Arbennig sy'n gyfrifol am gymeradwyo a diwygio'r weithdrefn hon. |
| Sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriad? | Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda'r rhanddeiliaid allweddol bob blwyddyn a chedwir cofnod ohonynt. Gall unrhyw aelod staff neu fyfyriwr awgrymu newidiadau i'r weithdrefn trwy'r Cynorthwywr Cydymffurfio a Rheoliadau. |
| Sut mae’r ymgynghoriad wedi cyfrannu at ddatblygu'r polisi? | Ymgynghorwyd â rhanddeiliaid allweddol er mwyn gwneud y weithdrefn yn fwy hygyrch i ddefnyddwyr. Mae gan y weithdrefn gylch adolygu sefydlog lle caiff datblygiadau eu cynnwys. |

| Gweithredu | |
|---|---|
| Sut y gweithredir y polisi? | Pwyllgor Rheoliadau'r Senedd ac Achosion Arbennig sy'n gyfrifol am gymeradwyo a diwygio'r weithdrefn hon.<br><br>Bydd y weithdrefn ar gael ar-lein yn www.bangor.ac.uk a hefyd ar ffurf brintiedig ar gais. Hysbysir staff trwy e-bost pan wneir newidiadau. |
| Pwy fydd yn gyfrifol am weithredu’r polisi? | Yr Pennaeth Gweinyddu Myfyrwyr sy'n gyfrifol am reoli'r weithdrefn. |